Grwpiau Cyfeirio Darparwyr

RHANBARTH: Cymru
LLEOLIAD: Express Holiday Inn, Rhws

AMSER: 10.30 am
DYDDIAD: 26 Mehefin, 2009

PRESENNOL: Tom Jones, Paul Davies, James O'Reilly, Sarah Mallorie, Rhian Davies– Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol
Antoinette Bell, Gail Wynter, Julie Burton, Kathrina Salter, Lesley Chang Kee, Rhiannon Price, Rhodri Owen, Samantha Georgious, Sian George, Andy Stocks

YMDDIHEURIADAU: Cemlyn Williams, Gwyn George, Dawn Wilkie

NODIADAU CYFFREDINOL:

Croesawodd Tom Jones, Comisiynydd Cymru, bawb i'r cyfarfod yn cynnwys aelod newydd, sef Andy Stocks. Atgoffodd aelodau y croesewid syniadau ar gyfer yr agenda.

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod blaenorol heb unrhyw welliannau.

Dosbarthodd James O'Reilly bapurau i'r grŵp yn cyfeirio at Bwyntiau Gweithredu Agored. Esboniodd fod y rhain yn bwyntiau gweithredu o Grwpiau Cyfeirio Darparwyr pob rhanbarth ynghyd â diweddariadau ar bob un o'r pwyntiau. Bydd y pwyntiau gweithredu ar wefan Gwasanaethau Cyfreithiol fel dogfen dreigl yn galluogi aelodau i weld sut mae'r gwaith yn mynd rhagddo ar y pwyntiau. Gofynnir i unrhyw un yn y grŵp sydd a sylwadau neu ymaeb i anfon neges e-bost yn uniongyrchol at James yn james.o'reilly@legalservices.gov.uk. Bydd James yn crynhoi'r holl ymholiadau a dderbyniwyd ac yn eu cylchredeg i'r grŵp.

Dywedodd Tom Jones fod gwasanaethau ffôn yn cynyddu ac y gwahoddwyd aelod newydd, Dawn Wilkie o Tŷ Arian, un o'r darparwyr gwasanaeth ffôn, i ymuno â'r grŵp. Yn anffodus roedd Dawn yn methu mynychu'r cyfarfod hwn.

<u>Papurau Trafod</u>

a Sifil – Papur Trafod 1

Dywedodd Sarah Mallorie y bu ymateb da i'r ymgynghoriad ar Ffioedd Teulu. Dywedodd fod y cynigion yn dal i gael eu trafod ac y cyhoeddir yr ymateb ym mis Awst.

Mae cynlluniau caffael contract sifil 2010 a'r ymateb i'r ymgynghoriad ar fin cael eu cyhoeddi a bwriedir cynnal hyfforddiant i ddarparwyr ym mis Awst a mis Medi. Dywedodd y grŵp fod angen dyddiadau penodol ar gyfer yr hyfforddiant fel y medrent gynllunio ymlaen llaw.

Dywedodd James y byddai hyfforddiant ar-lein ar gael hefyd i roi mwy o hyblygrwydd.

Nodyn yn Dilyn y Cyfarfod: Deellir erbyn hyn y caiff yr holl hyfforddiant ei ddarparu ar-lein.

Dywedodd Sarah y bu'r adborth ar y cynllun peilot ar gyfer darparu cyngor teulu dros y ffôn yn gadarnhaol iawn. Dyfarnwyd contractau newydd i 4 darparydd, un ohonynt yn seiliedig yng Nghymru ac a gynrychiolir ar y Grŵp Darparwyr!

Amlinellodd Sarah y peilot cyfryngu a gynhelir mewn 4 llys yn Lloegr mewn cysylltiad gyda Rhaglen Cyfraith Teulu Preifat diwygiedig y Llywydd. Cytunodd y grŵp y cyfeirir yn gynnar iawn at CAFCASS Cymru mewn llawer o lysoedd yng Nghymru, a bod hynny'n gweithio'n dda mewn llawer o achosion.

Cadarnhaodd Sarah fod y peilot ACE wedi cychwyn ac y byddai'n cylchredeg nodyn gwybodaeth ar hynny gyda'r cofnodion.

<u>Cwestiynau</u>

1. **Dywedwyd y bydd y tâl arfaethedig yn arwain at i gwmnïau wneud llai o'u hadfocatiaeth eu hunain ac y byddent yn llai parod i deithio. Byddai achosion 5-diwrnod yn neilltuol yn achosi cwmnïau i golli arian. Nid oedd darpariaeth data cyn cau'r ymgynghoriad wedi gwneud iddynt newid eu meddyliau ar hyn. Ni fyddai'r tâl gystal ag ar y cynllun cyfraddau awr presennol.**
2. **Mae cysylltu cyfyngiadau cost gyda ffioedd safonol yn syniad da. Dywedwyd nad oes unrhyw gysondeb yn y penderfyniadau a wneir gan Gaerdydd a Tyneside ar achosion VHCC a theimlai'r grŵp fod angen mwy o gysondeb. Byddai mwy o hyfforddiant ar achosion VHCC, fel y sesiwn hyfforddiant a gynhaliwyd yng Nghaerdydd beth amser yn ôl, yn syniad da.**
3. **Teimlid y byddai Cyfraith Gydweithredol yn amgen da i gyfryngu ac y dylid ei ystyried yng nghylch cymorth cyfreithiol. Nid oes llawer o gyfreithwyr sydd wedi'u hyfforddi'n llawn mewn Cyfraith Gydweithredol ac mae'r hyfforddiant yn gostus iawn. A fedrid gwneud y gwaith mewn modd tebyg ond ei alw yn rhywbeth gwahanol a thalu amdano drwy ffi sefydlog?**

<u>Diweddariad ar Gomisiynu ar y Cyd</u>

Dywedodd Sarah na fu unrhyw newidiadau ers y cyfarfod diwethaf. Cyhoeddwyd adroddiad yr Arglwydd Bach ac rydym yn dal i aros canlyniad astudiaeth dichonolrwydd Llywodraeth y Cynulliad. Nid oes amserlen wedi'i gosod ond bydd y ffordd ymlaen yn benodol i Gymru.

b Cynlluniau Systemau Cyfan

Dywedodd Sarah y bu'n hyrwyddo darpariaeth cyngor CLA a F2F gyda gwasanaethau sy'n gysylltiedig â Cymorth i Fenywod Cymru a bu hefyd yn ceisio sefydlu sut maent yn cyrchu gwasanaethau wyneb i wyneb a pha mor rhwydd yw'r cysylltiadau. Dywedodd y mwyafrif helaeth fod ganddynt gysylltiadau da gyda gwasanaethau wyneb i wyneb ac yn medru cyrchu cyngor priodol pan fo'i angen. Holodd Lesley Chang Kee am y gwasanaeth sydd ar gael i grwpiau ethnig. Cadarnhaodd Sarah y deallai y byddai pob gwasanaeth yn darparu ar gyfer grwpiau ethnig ond bod BAWSO ('Black and Asian Women Step Out') hefyd yn cynnal gwasanaethau yng ngogledd ac yn ne Cymru.

<u>Cwestiynau</u>

1. **Mae cyfryngu teulu'n gweithio'n iawn.**
2. **Teimlai'r grŵp fod problemau mawr gyda mynediad i gyngor ar gyfer rhai sy'n dioddef trais yn y cartref ac ardaloedd caffael arfaethedig 2010. Roedd pryder y byddai materion ffiniau yn cyfyngu ar ddewis cleientiaid o gwmnïau, er enghraifft mae'n well gan fenywod i rywun ddod i'w gweld mewn lloches gan eu bod yn teimlo'n fwy diogel, a byddai'r ardaloedd caffael newydd yn atal cwmni rhag gwneud hyn. Os yw cleient yn gorfod mynd i swyddfa cyfreithiwr mewn tref fach, mae teimlad y gall rhywun y maent yn eu hadnabod eu gweld a medrai hyn wneud iddynt deimlo'n agored i niwed ac mewn risg.**
3. **Mynegwyd pryder am Orchmynion Triniaeth Cymunedol a bod adroddiadau'n cyrraedd yn hwyr yn achosi gohiriadau diangen. Roedd Gorchmynion munud olaf yn arwain at ddiffyg ôl-ofal. Dywedwyd nad oedd unrhyw oblygiadau cost os oedd gohiriad cyn dyddiad y gwrandawiad. Dylid derbyn adroddiadau ysbyty 3 wythnos cyn gwrandawiad, ond yn aml nid oeddent yn dod i law tan fore'r gwrandawiad. Dywedodd Sarah ei bod yn cydnabod fod angen gwelliannau a'i bod wedi sôn wrth Mike Eaton am y materion hyn.**

c Trawsnewid Cyflenwi

Rhoddodd Rhian Davies ddiweddariad i'r grŵp ar Drawsnewid Cyflenwi. Dywedodd fod y papur ymgynghori a'r ymateb ar gael ar wefan y Gwasanaethau Cyfreithiol. Bydd mwy o wybodaeth ar gael yn yr ychydig wythnosau nesaf drwy e-hysbysiadau a FOCUS. Rhoddodd gopïau papur o'r systemau arfaethedig i'r grŵp.

Dywedodd yn ôl yr amserlen ddiweddaraf sydd ar gael, y bydd rhan fewnol y system yn weithredol ym mis Hydref 2009 ac y caiff y broses ei hymestyn i ddarparwyr o Ionawr 2010 ymlaen. Dywedodd Tom Jones y dylai unrhyw ddarparydd sy'n barod i

gymryd rhan yn y profion gan ddefnyddwyr adael i Rhian wybod. Dywedodd Annette Bell y gofynnwyd i'r grŵp yn flaenorol i gymryd rhan mewn profion a bod pawb wedi mynegi diddordeb ond na ofynnwyd i neb gymryd rhan. Roedd y grŵp yn ei gyfranrwydd yn bryderus na ofynnwyd i ddarparwyr o Gymru gymryd rhan mewn unrhyw brofion. Roedd pryder efallai nad yw'r darparydd meddalwedd a ddewiswyd yn gyson gyda'r systemau a ddefnyddir eisoes gan ddarparwyr. Bydd Rhian yn ymgynghori gyda Trawsnewid Cyflenwi ac yn adrodd yn ôl i'r grwp. Nodwyd fod pawb yn y grŵp yn barod i gymryd rhan yn y profion. Rhoddodd Tom Jones sicrwydd i'r grŵp fod y Gymraeg a chyfraith Cymru yn ystyriaeth yn y broses gynnig.

Gofynnodd y grŵp os oedd gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol restr o ddarparwyr meddalwedd cymeradwy. Dywedodd James y byddai'n cylchredeg y ddolen i'r grŵp.

Teimlid fod mwy o drafodaethau gyda gwerthwyr na gyda darparwyr a dywedodd James y byddai'n mynd â'r pwynt hwn yn ôl i'r Tîm Trawsnewid Cyflenwi.

Cadarnhaodd y grŵp y dymunent gymryd rhan mewn unrhyw dreialon ac roeddent oll ar gael ar gyfer cysylltu'n uniongyrchol â hwy.

Dywedodd James y dylai cam cyntaf cyflwyno ceisiadau yn electronig fod yn weithredol ym mis Awst. Gall busnesau olrhain cynnydd y cais a chaiff y canlyniadau eu e-bostio i fusnesau. Roedd peth pryder am ddiogelwch negeseuon e-bost ac awgrymwyd y byddai rhyw fath o hysbysiad prydlon i ddweud bod neges y medrid ei gwahaniaethu'n rhwydd o e-bost cyffredin yn ddefnyddiol iawn. Bydd Rhian yn rhoi eglurhad am lofnodion electronig.

ch Cyfreithwyr Contract – Telerau Contract 2010

Rhoddodd Sarah grynodeb o'r papur a dywedodd ei fod yn gyfle i'r grŵp i roi adborth.

Grym i wneud Newidiadau - Holwyd beth y medrai 'mân newidiadau' y soniwyd amdanynt mewn newidiadau i gontract. Dywedwyd hefyd y clywyd y byddai'n rhaid i bob cwmni gael generadur fel rhan o gynllun adfer ar ôl trychineb. Dywedodd Sarah y byddai'n gofyn am eglurhad ar y pwyntiau hyn.

Cyfathrebu – Awgrymwyd pan fo erthyglau diddordeb personol yn ymddangos mewn papurau lleol, y medrid cynnwys y rhif ffôn a dolen gwefan i'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol.

SQM - Roedd y grŵp eisiau gwybod os bydd y safon goruchwyliwr yn newid. Dywedodd un aelod o'r grŵp a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad y codwyd cwestiwn am ofynion arfaethedig safon goruchwylio lechyd Meddwl, gan nad yw'n glir yn union beth mae'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol ei eisiau.

Twyll a Chydymffurfiaeth – Mae'r grŵp eisiau mwy o fanylion am hyn.

Bydd Sarah yn rhoi dolen i'r dogfennau ymgynghori i aelodau.

<u>Parodrwydd Darparwyr</u>

Gofynnwyd cwestiwn am amseriadau MI ar y Dangosyddion Perfformiad Allweddol a fydd ar gael ar LSC on-line. Cadarnhaodd James mai darparu'r wybodaeth hon yw'r cam nesaf ar gyfer y gwasanaeth ar-lein a bydd yn mynd ar ôl y pwynt gweithredu presennol i egluro amserlenni.
Mae Parodrwydd Darparwyr a LSC Online wedi datblygu fersiwn brawf o Online, yn galluogi gwerthwyr meddalwedd i brofi eu systemau yn erbyn systemau'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol i sicrhau eu bod yn gydnaws. Lansiwyd y safle ym mis Ebrill 2009 i baratoi ar gyfer diweddariadau mis Mehefin. Bu'r adborth hyd yma yn gadarnhaol. Mae'r Comisiwn a gwerthwyr meddalwedd wedi cytuno ar brotocol newid, gan roi digon o hysbysiad i werthwyr o ofynion newidiadau mewn systemau i lansio'r diweddariadau yn llwyddiannus i ddarparwyr.

Dywedodd Antoinette Bell na all y system gynhyrchu Hawliad 4 cyfunol - bydd James yn edrych i'r mater.

Ni chynhaliwyd yr hyfforddiant Marchnata y soniwyd amdano yn y cyfarfod diwethaf oherwydd salwch ac mae'n bosibl y gall yr hyfforddiant hwn yn awr fod ar gael drwy daflen rhestr wirio ar y rhyngrwyd. Byddai Pamela Judge yn cyflwyno'r hyfforddiant a dymunodd y grŵp adferiad buan iddi.

Mae hyfforddiant i wyneb i wyneb mewn BVT Troseddu yn cael ei beilota ar hyn o bryd. Bydd yr hyfforddiant ar gael ar-lein. Dyfernir pwyntiau Datblygiad Proffesiynol Parhaus a bydd hyn ar gael ddechrau mis Medi.

Cyhoeddodd James y cytunwyd ar raglen cefnogaeth gydag sefydliad ymgynghori busnes a hyfforddiant amlwg, a bydd ar gael ym Medi 09 yn y meysydd a drafodwyd mewn cyfarfodydd blaenorol:

- **Sgiliau ariannol**
- **Strwythurau busnes amgen**
- **Ehangu eich busnes**
- **Defnydd gorau o TG ac arbedion cysylltiedig**

Bydd yr hyfforddiant ar gael drwy fodiwlau dysgu ar-lein, sy'n denu pwyntiau DPP.
Mae sesiynau wyneb i wyneb ar y gweill ar hyn o bryd yng nghyswllt BVT (troseddu) ym Manceinion, Bryste a Taunton. Caiff yr estyniad ei fonitro fel rhan o adolygiad peilot ehangach.

Caiff hyfforddiant penodol ar Gymorth Cyfreithiol ei beilota ddechrau mis Awst. Mae angen 15 darparydd i gymryd rhan yn yr hyfforddiant. Cynigiodd holl aelodau'r Grŵp

Darparwyr eu henwau i helpu i ddatblygu'r astudiaethau achos a chymryd rhan yn y peilot hyfforddiant. Bydd James yn e-bostio'r manylion perthnasol i bawb yn y grŵp.

Eitemau Trafod Lleol

Diolchodd Lesley Chang Kee i'r Comisiwn am sefydlu'r Grwpiau Cyfeirio Darparwyr gan roi cyfle i ddarparwyr ryngweithio a dywedwyd bod hyn yn fuddiol iawn.

Diolchodd Paul Davies i Lesley.

Cadarnhaodd y byddai'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol bob amser yn cadw swyddfa yng Nghymru a dywedodd y cyflwynwyd Cynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn am y tair blynedd nesaf i Fwrdd yr Iaith Gymraeg a chaiff ei lansio yn San Steffan yn y dyfodol agos. Bydd hefyd ar gael ar wefan y Comisiwn unwaith iddo gael cymeradwyaeth y Bwrdd. Dywedodd y cafodd symud yr adran Gweithrediadau o Gaerdydd ei ohirio am 12 mis. Dywedodd y byddai person newydd yn ymuno â swyddfa Caerdydd ym mis Awst ac yn cysylltu gyda'r Cynulliad Cenedlaethol i ddeall effaith cyfreithiau newydd.

Unrhyw Fater Arall

Dywedodd Paul y penodwyd Jo Beddow yn Rheolwr Perthynas Ardal Cymru ac y byddai'n awr yn mynychu cyfarfodydd Grŵp Cyfeirio Darparwyr Sifil ac y byddai'n mynychu cyfarfodydd yn ei dro.

Dyddiad Cyfarfod Nesaf

Dydd Gwener 20 Tachwedd 2009